

DOLEN Y TAB 72

10–11 Medi 2021

Am 11 fore Sul 12 Medi

Oedfa yng ngofal Heulyn Rees
a'r Parchg. Aled Edwards.

YR OEDFAON NESAF

Cofiwch Gofrestru!

Am y tro bydd gofyn i chi gofrestru eich bwriad i fynychu oedfaon yn y Tabernacl ar foreau Sul, a hynny erbyn 6yh ar y dydd Gwener blaenorol.

Ni wneir casgliad yn ystod yr oedfa, ond bydd blychau casglu yn y cyntedd cyn ac ar ôl yr oedfa.

Medi

- 19 Yng ngofal Helen Prosser a Lowri a Dafydd Roberts.
- 26 Yng nghwmni Rhiannon Humphreys a'r teulu.

Hydref

- 3 Oedfa Gymun gydag Ann ac Emlyn Davies.
- 10 Yng ngofal Iwan Rowlands a'r Parchg. Aled Edwards.
- 17 Cwrdd Diolchgarwch gyda'r Ysgol Sul, Huw M a Bethan Reynolds.
- 24 Yng ngofal Glenys Roberts a'r Parchg. Gethin Rhys.
- 31 Yng ngofal Lyn a Mike West a'r teulu.

Hefyd ddydd Sul 12 Medi

12:00 Oedfa Radio Cymru

Gwasanaeth yng ngofal Jennie Hurd, Synod Cymru o'r Eglwys Fethodistaidd

12:30 Radio Cymru – Bwrw Golwg

John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a chrefyddol.

E-fwletin Cristnogaeth21

Bob bore Sul www.cristnogaeth21.cymru

O ardd Eden i Efail Isaf

Yn ystod yr haf mae'r datblygiadau yn yr ardd gymunedol wedi tyfu a thyfu fel caseg eira. Dechreuodd y llyisiau a blannwyd ym misoedd y gwanwyn ddwyn ffrwyth, gan roi golwg lewyrchus iawn i'r safle. Wedyn, ar ddiwedd Awst, cyrhaeddodd llond lorri fawr o offer a nwyddau gardd, a thros yr wythnosau nesaf bydd llawer mwy o ddodrefn gardd yn cyrraedd, ynghyd ag amrywiaeth o blanhigion ddaw mewn da bryd ar gyfer y tymor plannu coed ffrwythau. Mae ein dyled yn fawr i *Cadw Cymru'n Daclus* am eu haelioni dan eu cynllun i hybu gerddi cymunedol.

Yna, yng nghyfarfod o Fwrdd y Cyfarwyddwyr nos Fawrth, clywsom fod y datblygiad wedi creu argraff ymhell y tu hwnt i Efail Isaf. O ganlyniad, ddydd lau 7 Hydref bydd tîm datblygu *Eden Project Communities* – sef rhwydwaith sy'n gweithredu ar draws Prydain – yn ymweld â'r safle a'u bryd ar ein cynorthwyo trwy gefnogi prosiect pellach yn yr ardd. Eisoed mae'r Bwrdd wedi rhoi cefnogaeth i'r awgrym o greu 'cwtsh meddylgarwch' ar y lawnt rhwng y Capel a'r Ganolfan fel estyniad i'r seiyddau anffurfiol a gynhelir yno bob bore lau.

Mae'n anodd cofio erbyn hyn i'r prosiect gychwyn pan benderfynodd criw bach o'r aelodau fynd ati i dacluso'r fynwent, ond cymaint oedd eu brwdfrydedd, eu hegni a'u dyfalbarhad fel y llwyddwyd i roi trefn ar y fynwent, clirio tunelli o lwyni, drain a mieri rhwng y maes parcio a ffin tiroedd y Tabernacl, agor rhwydwaith o lwybrau hwylus i'w cerdded, ac ailfeddiannu'r rhandiroedd hynny oedd wedi eu hesgeuluso. Mae'r criw yn wir deilwng o fedalau aur ar sail eu cyfraniad syfrdanol – nid yn unig i'r eglwys ond hefyd y gymuned yn Efail Isaf, wrth i'w hymdrechion ysbrydoli eraill i ymuno â nhw i greu trysor amhrisiadwy ac arhosol yn sgil y pandemig.

Croeso, Eleri

Estynnwn groeso cynnes a'n dymuniadau gorau i Eleri Mai Thomas, fydd yn cychwyn yn ei swydd fel ein Swyddog Ieuenctid a Chymunedol yr wythnos nesaf, dan gynllun Arloesi a Buddsoddi Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. A ninnau'n dal i fod yng nghysgod y pandemig bydd y misoedd cyntaf yn sicr yn rhai heriol iawn, ond mae gennym bob ffydd yn ei pharodrwydd a'i gallu i oresgyn yr heriau hyn. Hyderwn hefyd y bydd pob un yn barod i'w chefnogi a chydweithio gyda hi yn ôl y galw. Trefnwyd y cyfle cyntaf i'r aelodau ddod i adnabod Eleri yn ein hoedfa fore Sul.

Eglwys?

Y mae eglwys yn fwy na . . . beth?

- . . . yn fwy na phregethwyr?
- . . . yn fwy nag oedfaon?
- . . . yn fwy na chapel?

Y mae'n fwy na . . . fe allwn fynd ymlaen ac ymlaen. Ond y mae'n sicr yn fwy na chynnal rhyw ddefodau ffurfiol. Yn ei hanfod, onid corff o bobl sy'n ymroddi'n ffyddlon ac egniol i gyflawni yn ysbryd yr Arglwydd Iesu yw eglwys? Mae rhai pethau sy'n dda i ni eu cofio. Lleygwr oedd Iesu, ac nid offeiriad. Doedd ganddo ddim i'w wneud â rhwysg Annas a Chaiaffas. Doedd e ddim yn gaeth i arferion a gosodiadau oedd yn sacrosanct yn ei ddydd. Roedd y Saboth iddo ef yn bodoli er lles, nid er mwyn caethiwed. Roedd hyd yn oed pobl amheus i gael eu parchu, a gelynyddion i dderbyn gofal. Roedd absenoldeb ffiniau arferol ei oes yn nodwedd sicr o'i fywyd. Roedd croeso i fod i fab amharchus ac hefyd i rascal barus a gwraig wrthoddedig. Felly mae cydymdeimlad yr Iesu yn llydan, cyn lleted â'r ddynoliaeth.

Oes gwirionedd mewn gosodiad fel 'wrth ei chyhoeddiadau y mae 'nabod eglwys'? Os yw hyn yn wir, gwae'r capel lle mai'r unig gyhoeddiad Sul ar ôl Sul yw 'dydd Sul nesaf bydd rhywun o rywle yma i bregethu a'r drefn fel arfer'.

Cwrdd ag Anghenion

Beth am eglwys felly? Rydw i'n ffodus fy mod yn aelod mewn capel sy'n ymdrechu ac yn anelu at fod yn eglwys. Bu i aelodau o'r capel gyflawni i gwrdd ag anghenion drwy holl gyfnodau'r clo. Trowyd y capel i fod yn warws i dderbyn a dosbarthu offer

coginio, peiriant golchi, dodrefn a phob math o nwyddau hanfodol. Nid anghofwyd y banc bwyd na Cymorth Cristnogol, ac agorwyd darn o dir y tu ôl i'r fynwent i fod yn ardd gymunedol. Nawr rydym yn edrych ymlaen at gyflogi person i'n helpu i ddatblygu ein gofal ymhellach o fewn y gymuned. Fel corff o bobl gweddol gyfforddus eu byd, ein braint yw sicrhau adnoddau i bobl sydd ar flaen y gad yn helpu i gwrdd ag anghenion dwys ein hoes.

Bod fel Iesu


Yn ystod y blynyddoedd mae'n hadeiladau wedi bod yn greiddiol i ffurfio pedwar côr (tri ohonynt yn bencampwyr cyson o fewn ein gwyliau cenedlaethol mawr), Merched y Wawr a darlithiau llenyddol, ac yn gartref i nifer o fudiadau llesol eraill fel *Cruse*. Yn ddiweddar galwodd yr Uchel Siryf, yn ei lifrai, i gyflwyno tystysgrifau i gydnabod ein cyfraniad i'r gymdeithas.

Ond eglwys . . ? I fod yn eglwys, mae'n rhaid ymateb i Iesu wrth wneud ei ewyllys. Dyna'r her i bob capel yw bod yn fwy na jyst canolfan i gynulleidfa (audience), ond i fod yn gartref gyda'i gilydd i wneud fel Iesu. O fod felly bydd pob capel yn berthnasol a byrlymus, ac efallai'n gartref i eglwys!

Eirian Rees

Cylchlythyr wythnosol Capel y Tabernacl Cyf. yw *Dolen y Tab* i ledaenu newyddion trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel www.tabernacl.org.

Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos lau at: 07710 237327 / 01443 225205 / gehpengwern@yahoo.co.uk



Cyfarfod Blynyddol
Cristnogaeth 21

Dyfodol y Weinidogaeth

Wrth gamu allan o'r cyfnod clo, a ydym yn wynebu gweinidogaeth amgen?

Gydag:
Aled Davies
Eileen Davies
Karen Owen
Cadeirydd: Anna Jane Evans

ar Zoom
Nos Fawrth, Medi 28ain, 2021 am 7:00pm
Mynediad yn rhad ac am ddim ond rhaid cofrestru i gael dolen i ymuno
E-bostiwch: cristnogaeth21@gmail.com

Bydd cyfarfod busnes byr yn dilyn i gyflwyno Adroddiad y Cadeirydd a'r cyfrifon, ac i ethol ymddiriedolwyr.

Mae Llusern - Cristnogaeth 21 yn elusen gofrestredig (Rhif 1011618)